# Cod Arferion Gorau i Aelodau Bwrdd QAA

## Cymeradwywyd gan Fwrdd QAA Rhagfyr 2018

**Adolygwyd ym mis Ebrill 2020**

# Cynnwys


**Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd ........ 1**

**Ynghylch QAA ........ 2**

Pwy ydym ........ 2

Ein statws corfforaethol ........ 2

**Y Bwrdd ........ 3**

Ei rôl ........ 3

Ei gyfrifoldebau a'i dasgau ........ 3

Materion a gedwir yn ôl gan y Bwrdd ........ 4

Dirprwyo pwerau gan y Bwrdd ........ 4

Aelodaeth y Bwrdd ........ 4

Dethol ac ymsefydlu ........ 5

Cyfarfodydd ........ 6

Cod Ymddygiad ........ 6

**Y Bwrdd a'r Weithrediaeth ........ 7**

Rôl y Cadeirydd ........ 7

Rôl y Trysorydd Mygedol ........ 7

Rôl y Prif Weithredwr ........ 7

**Atodiad A - Y fframwaith cyfreithiol sy'n tanategu gwaith yr Ymddiriedolwyr ........ 8**

Dyletswyddau'r Ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr y cwmni ........ 8

Budd y cyhoedd (elusennau) a budd yr aelodau (cwmnïau) ........ 9

**Atodiad B - Gweithredu busnes y tu allan i gyfarfodydd ........ 11**

Gweithredoedd y Cadeirydd ........ 11

Penderfyniadau'r Bwrdd ........ 11

**Atodiad C - Cod Ymddygiad i Aelodau Bwrdd QAA ac i bwyllgorau Bwrdd QAA ........ 12**

Saith egwyddor bywyd cyhoeddus ........ 12

Lles gorau QAA ........ 13

Rhoddion a lletygarwch ........ 13

Cyfrinachedd ........ 13

Y cyfryngau, siarad cyhoeddus, cyfathrebu gyda chyrff neu sefydliadau allanol, cynrychioli QAA yn gyhoeddus ........ 13

Cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau ........ 14

Staff QAA ........ 14

Sancsiynau ........ 14

Atebolrwydd ac yswiriant ........ 14

## Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd

Yn 1999, mabwysiadodd Bwrdd QAA *God arferion gorau i aelodau Bwrdd QAA* (y Cod), sydd wedi gweithredu ers hynny fel cyfarwyddyd a phwynt cyfeirio am faterion llywodraethu i Ymddiriedolwyr, staff ac aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb, ac fel adlewyrchiad o'r gwerth y mae QAA yn ei roi ar arferion llywodraethu da.

Fel y mae'r Asiantaeth wedi esblygu dros y blynyddoedd, mae'r Cod wedi gwneud hynny hefyd. Yn dilyn adolygiad sylweddol o strwythur llywodraethu QAA, mae'n bleser gen i gyflwyno argraffiad diwygiedig y Cod, sef y Cod Arferion Gorau i Aelodau Bwrdd QAA.

O gymryd Erthyglau Cymdeithasu QAA yn fan cychwyn iddo, mae'r Cod yn rhoi arweiniad ymarferol i Ymddiriedolwyr a staff, ac yn eu cyfeirio at ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n berthnasol i lywodraethu QAA fel cwmni elusennol, ac yn cynnwys dolenni at bolisïau atodol.

Mae gan addysg uwch y Deyrnas Unedig enw da am ei hansawdd, ac am y ffordd drwyadl y mae safonau academaidd yn cael eu sicrhau. Mae cenhadaeth QAA - i ddiogelu safonau a gwella ansawdd addysg uwch y DU lle bynnag y mae'n cael ei darparu ledled y byd - yn ategu'r enw da yma sy'n hynod haeddiannol.

Mae graddfa ac amrywiaeth y ddarpariaeth addysg uwch a'r ffordd y mae'n cael ei darparu yn newid, yn y DU a thrwy'r byd i gyd. Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn newid hefyd, gyda diwygiadau ar y gweill ymhob un o bedair gwlad y DU. Mae QAA yn barod i wynebu'r heriau newydd hyn, ac mae'n parhau i ddarparu atebion yn rhan o'r system o gyd-reoleiddio sydd o fudd i'r holl fyfyrwyr, yn awr ac yn y dyfodol.



Simon Gaskell
Cadeirydd Bwrdd QAA
Mawrth 2020

# Ynghylch QAA

## Pwy ydym

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yw'r corff annibynnol sydd â'r cyfrifoldeb dros fonitro ansawdd a safonau addysg uwch y DU a darparu cyngor perthnasol. Amcanion penodol QAA yw:

- hybu a chynnal ansawdd a safonau mewn addysg uwch yn y DU a thu hwnt
- gwella'r dysgu a'r addysgu, a hybu a chanfod arloesedd ac arferion da mewn dysgu ac addysgu
- darparu gwybodaeth a chyhoeddi adroddiadau ar ansawdd a safonau mewn addysg uwch yn y DU a thu hwnt
- rhoi cyngor i lywodraethau, yn ôl y gofyn, ar gydnabod cyrsiau Mynediad i AU a chyngor mewn perthynas â phob un neu unrhyw un o'r amcanion uchod.

Rydym yn cynnig ffynhonnell annibynnol o arbenigedd sy'n cyfrannu at addysg uwch y DU sy'n addysg o safon uchel ag iddi enw da a gydnabyddir ar draws y byd. Wrth i addysg uwch y DU dyfu a mynd yn fwy amrywiol, ni sy'n gofalu am y fframweithiau a'r pwyntiau cyfeirio ar gyfer sicrhau safonau academaidd ac ansawdd addysg uwch y DU - p'un a ydyw'n cael ei darparu mewn prifysgolion, colegau neu gan ddarparwyr addysg uwch eraill yn y DU neu yn rhywle arall yn y byd lle mae cyrsiau'n arwain at gymwysterau addysg uwch y DU. Mae ein gwaith yn sicrhau bod pawb sydd â diddordeb ym maes addysg uwch - myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr; darparwyr addysg uwch; staff academaidd; llywodraethau; cyrff cyllido; cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio; a chyflogwyr - yn hyderus am gadernid, dilysrwydd a chydnabyddiaeth ryngwladol cymwysterau addysg uwch y DU.

Yn 2017, lansiodd QAA ei Strategaeth 2017-20 newydd, *Adeiladu ar Ansawdd Byd-eang o'r Radd Flaenaf*. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'n cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd.

## Ein statws corfforaethol

Corfforaethwyd QAA yn gwmni cyfyngedig drwy warant ar 27 Mawrth 1997 a chofrestrodd fel elusen yng Nghymru a Lloegr ar 9 Mehefin 1997; ers 6 Chwefror 2007, mae QAA wedi ei chofrestru fel elusen yn yr Alban hefyd. Felly, mae QAA yn atebol i ddarpariaethau *Deddf Cwmnïau 2006* a *Deddfau Elusennau 2006* a *2011*, yn ogystal â'r rheoliadau gan y Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban hefyd.

Aelodau a pherchnogion cyfreithiol cwmni QAA yw cyrff cynrychioli darparwyr addysg uwch y DU: Prifysgolion y DU, GuildHE, Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion yr Alban.

# Y Bwrdd

## Ei rôl

Rôl y Bwrdd yw llywodraethu QAA yn unol â gweledigaeth, amcanion a gwerthoedd y corff, a sicrhau ei bod yn cyflawni ei nodau elusennol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y corff yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a'r darpariaethau sy'n berthnasol i elusennau yn y DU. Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn, bydd y Bwrdd yn:

- rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad i QAA o fewn fframwaith effeithiol a doeth o reolaeth, atebolrwydd a rheoli risgiau
- gosod amcanion strategol QAA
- sicrhau bod yr adnoddau yn eu lle i alluogi QAA i gyflawni ei nodau a'i hamcanion
- adolygu perfformiad y rheolwyr
- gosod gwerthoedd QAA
- pennu trothwyon QAA o ran cymryd a chaniatáu risgiau.

## Ei gyfrifoldebau a'i dasgau

Wrth gyflawni ei rôl, bydd y Bwrdd yn:

1 Darparu cyfeiriad strategol drwy:

- osod strategaeth a nodau QAA, a'i pholisïau
- gymeradwyo cynlluniau strategol, cyllidebau a chynlluniau blynyddol QAA
- ddiogelu enw da a gwerthoedd QAA
- gynnal safonau uchel o lywodraethu corfforaethol.

2 Hwyluso arweinyddiaeth drwy:

- benodi'r Prif Weithredwr, a rhoi trefniadau addas yn eu lle i fonitro perfformiad deiliad y swydd
- benodi Ysgrifennydd y Cwmni
- gytuno ar gynllun o ddirprwyo cyfrifoldebau.

3 Monitro perfformiad drwy:

- sicrhau bod prosesau yn eu lle i fonitro a gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd QAA yn erbyn cynlluniau strategol a blynyddol, a dangosyddion perfformiad allweddol a gymeradwywyd o flaen llaw
- sefydlu prosesau i fonitro a gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd ei hun.

4 Sicrhau atebolrwydd drwy:

- dderbyn a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol
- sicrhau a monitro bod systemau cywir o reolaeth ac atebolrwydd yn eu lle, gan gynnwys systemau gyfer rheoli materion ariannol a gweithredol a rheoli risgiau
- ddiogelu arian cyhoeddus a sicrhau bod QAA yn gweithredu'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol bob amser.

## Materion a gedwir yn ôl gan y Bwrdd

Mae rhagor o fanylion yn Atodiad A am y fframwaith cyfreithiol sy'n tanategu gwaith yr Ymddiriedolwyr.

## Dirprwyo pwerau gan y Bwrdd

### Y Pwyllgorau

> Erthyglau Cymdeithasu QAA:
>
> 69 Gall y Bwrdd Cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i bwyllgor(au) cyfarwyddwyr ac i unigolyn arall neu unigolion eraill o'r fath y mae'n eu hystyried yn addas, a bydd unrhyw bwyllgor a sefydlir yn y ffordd yma, wrth ddefnyddio'r pwerau a ddirprwyir iddo yn y ffordd yma, yn cydymffurfio â'r holl reoliadau a roddir arno gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr.

Gall y Bwrdd sefydlu neu ddiddymu pwyllgorau wrth i'r angen godi. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi yn ei waith gan saith pwyllgor a'r Trysorydd Mygedol. Mae'r pwyllgorau llywodraethu'n cynnwys y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau a'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau. Mae'r pwyllgorau sydd â chylch gwaith penodol ar gyfer sicrhau safonau academaidd ac ansawdd yn cynnwys y Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau a'r Pwyllgor Cydnabod a Thrwyddedu Mynediad i AU. Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth yr Alban, y Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth Cymru a'r Pwyllgor Myfyrwyr i Gynghori ar Strategaeth yn hysbysu gwaith y Bwrdd o ddatblygu strategaethau drwy roi cyngor arbenigol ar faterion addysg uwch yn y gwledydd datganoledig, a thrwy ddarparu safbwyntiau'r myfyrwyr ar waith QAA.
Mae'r Pwyllgorau'n cynnwys Aelodau'r Bwrdd ac aelodau allanol eraill sy'n arbenigwyr.

### Y Weithrediaeth

> Erthyglau Cymdeithasu QAA:
>
> 72 Gall y Bwrdd Cyfarwyddwyr gyflwyno gymaint ag y maent yn ei ystyried yn briodol o'r pwerau gweithredol sydd ganddynt o dan yr Erthyglau hyn i'r Prif Weithredwr am y tro, a gallent gyflwyno'r pwerau hynny am faint bynnag o amser ag y maent yn ei ystyried yn fwyaf manteisiol, a'u gweithredu ar gyfer yr amcanion a'r pwrpasau, ac o dan y telerau ac amodau, a gyda'r cyfyngiadau y maent yn eu hystyried yn fwyaf manteisiol, a gallent ddirymu, tynnu'n ôl, diwygio neu newid pob un neu unrhyw un o'r pwerau hynny AR YR AMOD bod adroddiad yn cael ei roi maes o law, mewn unrhyw achos o'r fath, am bob un o gamau gweithredu'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli gweithgareddau a swyddogaethau QAA o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr. Ymhob un o gyfarfodydd y Bwrdd, bydd y Prif Weithredwr yn rhoi adroddiad (ysgrifenedig) am ddatblygiadau allweddol o fewn QAA a chyflawniadau gan QAA, a hynny'n aml iawn yng nghyd-destun y datblygiadau neu'r newidiadau yn yr amgylchedd deddfwriaethau, polisïau a rheoliadau y mae QAA yn gweithredu oddi mewn iddo, yn y DU a thramor.

## Aelodaeth y Bwrdd

Mae Erthyglau Cymdeithasu QAA yn nodi beth yw cyfansoddiad y Bwrdd, yn rhoi manylion y meini prawf aelodaeth, ac yn nodi'r hawliau enwebu a phenodi. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi Bwrdd QAA i fod yn gorff llywodraethu effeithiol ar gyfer yr elusen, gan gynrychioli'r amrywiaeth a geir o ddarparwyr addysg uwch y DU.

Erthyglau Cymdeithasu QAA:

46 Heblaw bod cyfarfod cyffredinol yn penderfynu fel arall, bydd aelodaeth y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi ei chyfansoddi fel a ganlyn:

(i) Penodir 4 unigolyn, ar y cyd gan Brifysgolion yr Alban, Prifysgolion y DU, Prifysgolion Cymru a GuildHE;

(ii) Penodir 4 unigolyn, ar y cyd gan Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido'r Alban;

(iii) Penodir 6 chyfarwyddwr annibynnol gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr;

(iv) Penodir 1 cyfarwyddwr annibynnol gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr sydd, ar amser ei benodi/phenodi' i ddechrau, naill ai: (a) yn fyfyriwr israddedig neu ôl-raddedig cofrestredig ar gwrs sy'n arwain at ddyfarniad gan sefydliad addysg uwch, (b) yn swyddog myfyrwyr etholedig undeb myfyrwyr (ystyr undeb myfyrwyr ar gyfer yr Erthygl hon yw undeb myfyrwyr yn yr ystyr a ddiffinnir gan ran II Deddf Addysg 1994 ac unrhyw sefydliad eraill y mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn ei ystyried yn undeb myfyrwyr) neu (c) yn swyddog corff cynrychioli myfyrwyr a etholwyd o blith y myfyrwyr;

(v) Enwebir 1 unigolyn gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a phenodir yr unigolyn hwnnw gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr os ydynt yn cymeradwyo'r dewis hwnnw;

(vi) Enwebir 1 unigolyn gan Gyngor Colegau'r DU a phenodir yr unigolyn hwnnw gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr os ydynt yn cymeradwyo'r dewis hwnnw;

(vii) Penodir 1 unigolyn gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr sy'n cymryd rhan yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y gwaith o reoli neu lywodraethu Darparwr Amgen neu Ddarparwyr Amgen, ac a fydd (ym marn y Bwrdd Cyfarwyddwyr) â gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o ddarparwyr o'r fath, a bydd yn cynrychioli eu safbwyntiau a'u diddordebau.

## Dethol ac ymsefydlu

Caiff Aelodau'r Bwrdd eu dethol a'u penodi'n unol â'r arfer da a pholisïau QAA i sicrhau bod y broses yn eglur, yn deg ac yn drwyadl, gan sicrhau cydraddoldeb ac annog amrywiaeth. Lle mae cyrff allanol yn penodi neu'n enwebu Aelodau i'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau, ar ran y Bwrdd, yn mynd i drafodaeth gyda'r bobl sy'n eu penodi neu'n eu henwebu. Ar gyfer Aelodau annibynnol y Bwrdd, bydd y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau'n goruchwylio proses recriwtio cyhoeddus yn unol â'r arfer da a pholisïau QAA.

Mae Aelodau newydd y Bwrdd yn cymryd rhan mewn rhaglen ymsefydlu strwythuredig fel bod modd iddynt ddod yn gyfarwydd â'u rôl a'u dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr, y cyd-destunau a'r fframwaith y mae QAA yn gweithredu oddi mewn iddynt, a gyda'r asiantaeth a'i gweithgareddau. Cefnogir yr Ymddiriedolwyr yn eu rôl gan Ysgrifennydd y Cwmni, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad iddynt fel y bo'r gofyn. Mae parth diogel ar-lein i Aelodau (SharePoint) ar gael i Aelodau'r Bwrdd lle cânt afael yn hawdd ar wybodaeth a chyfarwyddyd yn ymwneud â'u rôl fel Ymddiriedolwyr.

## Cyfarfodydd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith yn ystod blwyddyn fusnes QAA, sy'n rhedeg o 1 Awst hyd 31 Gorffennaf. Cynhelir y cyfarfodydd naill ai ym mhencadlys QAA yng Nghaerloyw neu yn swyddfa QAA yn Llundain ar safle'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (Jisc).

Disgwylir i aelodau'r Bwrdd a'i bwyllgorau ddangos eu hymrwymiad i'r sefydliad drwy fod yn bresennol bob tro yng nghyfarfodydd y Bwrdd neu'r pwyllgor y maent yn aelod ohono, heblaw pan fydd digwyddiadau na allai neb eu rhagweld yn atal hynny. Adroddir yn Adroddiad Blynyddol QAA am bresenoldeb yr aelodau mewn cyfarfodydd ac adolygir y presenoldeb yn rheolaidd gan ein Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau. Os bydd yr aelod yn mynd i **lai na** 75% o gyfarfodydd (y Bwrdd a'r pwyllgorau) mewn unrhyw flwyddyn galendr, yna hysbysir y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a bydd hwnnw'n asesu cyfranogaeth yr aelod yng ngwaith y Bwrdd er mwyn sicrhau parhad a chysondeb yn llywodraethiad QAA. Mae'n debyg y bydd hyn yn sbarduno trafodaeth rhwng yr aelod a'r Cadeirydd perthnasol er mwyn sicrhau, yn y lle cyntaf, fod yr aelod yn dal i fod ar gael ac yn dal i fod yn ymroddedig i'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau'n ystyried pob achos yn unigol a, lle bo'n briodol, bydd yn gosod amcanion ar gyfer gwella.

Mae Atodiad B - Gweithredu busnes y tu allan i gyfarfodydd - yn darparu arweiniad i'r Bwrdd ar sut i weithredu busnes brys y tu allan i'r cylch arferol o gyfarfodydd.

## Cod Ymddygiad

Mae QAA wedi datblygu Cod Ymddygiad i Ymddiriedolwyr, sy'n berthnasol i Aelodau o bwyllgorau Bwrdd QAA hefyd.

Atodiad C - Cod Ymddygiad i Aelodau Bwrdd QAA ac i bwyllgorau Bwrdd QAA.

Yn ogystal â'r Cod hwn, gofynnir i Aelodau'r Bwrdd gadw at bolisïau canlynol QAA (nodwch fod y rhain yn ddolenni mewnol; ond, mae'r polisïau ar gael os gofynnir amdanynt, er mai dim ond yn y Saesneg y maent ar hyn o bryd).

- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (dolen fewnol)
- Polisi Ymddygiad Moesegol a Pholisi Gwrth-lwgrwobrwyo (dolen fewnol)
- Polisi Chwythu'r Chwiban (dolen fewnol)
- Polisi Gwrthdaro Buddiannau (dolen fewnol)
- Polisi Diogelu Data (dolen fewnol)

# Y Bwrdd a'r Weithrediaeth

## Rôl y Cadeirydd

Mae Cadeirydd Bwrdd QAA yn un o'r Ymddiriedolwyr annibynnol. Mae cyfrifoldebau'r Cadeirydd yn ymwneud yn bennaf â rheoli'r Bwrdd a sicrhau ei fod yn effeithiol. Mae cyfrifoldebau'r Cadeirydd yn cynnwys:

- sicrhau bod y Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn
- gosod agenda i'r Bwrdd, gyda ffocws ar strategaeth, monitro perfformiad, systemau o reolaeth ac atebolrwydd
- sicrhau bod modd i'r Bwrdd wneud penderfyniadau clir, a'i fod yn gwneud hynny, a monitro gweithrediad penderfyniadau'r Bwrdd
- hyrwyddo gwerthoedd QAA, safonau uchel o briodoldeb, a defnydd effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau staffio a'r adnoddau eraill drwy'r corff cyfan
- sicrhau bod gan y Bwrdd y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol, a sicrhau bod aelodau newydd y Bwrdd yn cael eu hymsefydlu a'u cefnogi'n briodol
- monitro perfformiad y Bwrdd a'i Aelodau
- gwerthuso'r Prif Weithredwr ar ran y Bwrdd.

## Rôl y Trysorydd Mygedol

Cyflwynwyd y Trysorydd Mygedol i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Prif rôl y Trysorydd Mygedol yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd am:

- iechyd ariannol yr Asiantaeth (a'i his-gwmnïau)
- gadernid yr wybodaeth y maent yn ei defnyddio fel sail i wneud penderfyniadau ariannol
- gadernid y prosesau o reoli a chynllunio materion ariannol, gan gynnwys sicrwydd bod risgiau ariannol allweddol yn cael eu rheoli'n briodol.

Bydd y Trysorydd Mygedol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod swyddogaethau ariannol yr Asiantaeth yn cael eu gweithredu gyda diwydrwydd dyladwy, a bydd, mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Adnoddau, yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd am iechyd ariannol yr Asiantaeth.

## Rôl y Prif Weithredwr

Mae'r Prif Weithredwr, a benodir gan y Bwrdd, ond nad yw'n Aelod o'r Bwrdd nac yn Ymddiriedolwr, yn arwain y Tîm Gweithredol ac mae'n gyfrifol am reolaeth weithredol QAA a'i chyfarwyddo hi a'i rhaglenni gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid y mae QAA yn atebol amdano, am gadw cyfrifon sy'n gywir ac yn briodol, am weinyddu'r adnoddau ariannol yn ddarbodus ac yn ochelgar, am osgoi defnydd gwastraffus, ac am ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon yr holl adnoddau y mae QAA yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnig strategaeth y corff i'r Bwrdd, a bydd yn gweithredu'r strategaeth fel y mae hi wedi ei phenderfynu gan y Bwrdd.

# Atodiad A - Y fframwaith cyfreithiol sy'n tanategu gwaith yr Ymddiriedolwyr

Aelodau Bwrdd QAA yw cyfarwyddwyr y cwmni ac Ymddiriedolwyr yr elusen.
Felly, mae'r Deddfau canlynol yn llywio eu rolau a'u cyfrifoldebau:

- *Deddf Cwmnïau 2006*
- *Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005*
- *Deddf Elusennau 2011*.

## Dyletswyddau'r Ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr y cwmni

Ar sail ar y gyfraith statud a'r gyfraith achosion, mae canllawiau'r Comisiwn Elusennau, *Yr ymddiriedolwr hanfodol: beth mae angen i chi ei wybod, beth mae angen i chi ei wneud* (PDF 1.12MB) yn crynhoi dyletswyddau'r Ymddiriedolwyr fel a ganlyn.

Dyma ddyletswyddau'r Ymddiriedolwyr, yn unigol fel Aelodau'r Bwrdd ac ar y cyd fel y Bwrdd cyfan:

- rhaid iddynt sicrhau bod yr elusen yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd, ac wrth wneud hynny
  - dylent ddeall dibenion yr elusen fel y maent wedi eu nodi yn ei dogfen lywodraethol
  - dylent gynllunio'r hyn y bydd yr elusen yn ei wneud, a'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni
  - dylent allu esbonio sut mae holl weithgareddau'r elusen yn ceisio hyrwyddo neu gefnogi ei dibenion
  - dylent ddeall sut mae'r elusen o fudd i'r cyhoedd drwy gyflawni ei dibenion

- rhaid iddynt gydymffurfio â dogfen lywodraethol yr elusen a'r gyfraith

- rhaid iddynt weithredu er lles gorau'r elusen, sy'n golygu y dylai'r Ymddiriedolwyr
  - wneud yr hyn a fydd yn galluogi'r elusen i weithredu ei phwrpasau orau ym marn yr Ymddiriedolwyr
  - wneud penderfyniadau cytbwys yn seiliedig ar wybodaeth ddigonol, gan ystyried y tymor hir yn ogystal â'r tymor byr
  - osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae eu dyletswydd i'r elusen yn gwrthdaro â'u buddiannau personol neu eu teyrngarwch i unrhyw unigolyn neu gorff arall
  - beidio â derbyn unrhyw fudd gan yr elusen oni bai ei fod wedi ei awdurdodi'n briodol ac yn amlwg er lles yr elusen

- dylent reoli adnoddau'r elusen mewn ffordd gyfrifol, ac wrth wneud hynny dylent
  - sicrhau bod asedau'r elusen yn cael eu defnyddio i gefnogi neu gyflawni ei dibenion yn unig
  - osgoi gwneud asedau, buddiolwyr neu enw da'r elusen yn agored i risg ormodol
  - beidio â gor-ymrwymo'r elusen
  - gymryd gofal arbennig wrth fuddsoddi neu fenthyca
  - gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau ar wario cronfeydd neu werthu tir

- dylent weithredu gyda gofal a sgil rhesymol gan
  - ddefnyddio'r sgiliau a'r profiad sydd ganddynt a cheisio cyngor pan fydd angen
  - neilltuo digon o amser, meddwl ac ynni ar gyfer eu rôl fel Ymddiriedolwr

- dylent sicrhau bod yr elusen yn atebol, ac wrth wneud hynny
  - rhaid iddynt allu dangos bod yr elusen yn cydymffurfio â'r gyfraith, ac yn cael ei rhedeg yn dda ac yn effeithiol
  - dylent sicrhau atebolrwydd priodol i'w Aelodau
  - dylent sicrhau atebolrwydd o fewn yr elusen, yn enwedig pan fydd cyfrifoldebau am dasgau neu benderfyniadau arbennig yn cael eu dirprwyo.

Mae *Deddf Cwmnïau 2006* yn nodi'r dyletswyddau canlynol ar gyfer cyfarwyddwyr cwmnïau:

- gweithredu o fewn eu pwerau
- hyrwyddo llwyddiant y cwmni er budd ei Aelodau
- arfer eu barn annibynnol
- gweithredu gyda gofal, sgil a diwydrwydd rhesymol
- osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau
- peidio â derbyn buddion gan unrhyw drydydd parti
- datgan unrhyw fuddiannau mewn trafodion neu drefniadau arfaethedig gyda'r cwmni.

Mae canllawiau ychwanegol ar gael i ymddiriedolwyr elusennau, fel a ganlyn:

- *Cod Llywodraethu i Elusennau*
- Y Comisiwn Elusennau, *Yr ymddiriedolwr hanfodol: beth mae angen i chi ei wybod, beth mae angen i chi ei wneud* (PDF 1.12MB)
- Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, *Guidance and Good Practice for Charity Trustees*

## Budd y cyhoedd (elusennau) a budd yr aelodau (cwmnïau)

Mae angen i Aelodau Bwrdd QAA fod yn ymwybodol o'u dwy ddyletswydd fel ymddiriedolwyr yr elusen ac fel cyfarwyddwyr y cwmni tuag at fuddiolwyr QAA a'i gwaith.

### Elusennau a'r budd cyhoeddus

Mae *Deddf Elusennau 2011* yn diffinio elusen fel "sefydliad a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig, sy'n ddarostyngedig i reolaeth awdurdodaeth cyfraith elusennau'r Uchel Lys". Er mwyn bod yn gymwys fel diben elusennol, mae'n rhaid i weithrediadau'r sefydliad gyd-fynd ag un neu fwy o'r categorïau a restrir yn y Ddeddf, a rhaid iddynt hefyd fod er budd y cyhoedd.

Er na ragdybir budd cyhoeddus mewn unrhyw achos, 'hyrwyddo addysg' yw'n un o'r dibenion erbyn hyn ar restr newydd o 12 diben elusennol cydnabyddedig sy'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth yn ymwneud ag elusennau.

Gofynnir i ymddiriedolwyr elusennau megis Aelodau Bwrdd QAA roi sylw i ganllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau wrth gyflawni unrhyw rai o'u pwerau neu eu dyletswyddau. Mae 'rhoi sylw' i ganllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn yn golygu y dylai Ymddiriedolwyr allu dangos eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau, eu bod wedi rhoi sylw i'r canllawiau pan fyddant yn gwneud penderfyniad y mae'r canllawiau'n berthnasol iddo, ac os yw Ymddiriedolwyr wedi penderfynu gweithredu'n wahanol i'r canllawiau, ei bod hi'n bosibl dangos bod rhesymau da ganddynt dros wneud hynny.

Ers Ionawr 2008, mae'n rhaid i bob elusen ddangos, a gallu adrodd ar, y ffordd y mae'n bodloni'r 'gofyniad budd cyhoeddus'.

Mae canllawiau'r Comisiwn Elusennau'n nodi dwy egwyddor allweddol 'budd cyhoeddus':

- yr 'agwedd budd'
  - rhaid i ddiben fod yn fuddiol mewn ffordd sy'n adnabyddadwy ac y gellir ei brofi drwy dystiolaeth os oes angen, ac heb gael ei seilio ar farn bersonol
  - ni all unrhyw niwed neu golled sy'n deillio o'r diben (i bobl, i eiddo neu i'r amgylchedd) fod yn fwy na'r budd - bydd hyn hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth, nid ar farn bersonol

- yr 'agwedd cyhoeddus'
  - rhaid i'r diben gynnig budd i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu ran ddigonol o'r cyhoedd
  - rhaid i'r diben beidio rhoi mwy na budd personol damweiniol (mae budd yn 'ddamweiniol' os yw'n ganlyniad neu'n sgil-gynnyrch angenrheidiol i gyflawni'r diben).

Mae'n rhaid i adroddiad blynyddol QAA egluro'r ffordd y mae'r Asiantaeth wedi cyflawni ei diben er budd y cyhoedd, a rhaid iddo hefyd gynnwys datganiad i esbonio a yw'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn wrth arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt. Bydd y Comisiwn yn gwirio hapsampl o adroddiadau blynyddol ar sail ansawdd adrodd ar fudd cyhoeddus, a bydd yn ystyried methu'n barhaus i adrodd ar fudd cyhoeddus yn fater rheoleiddio posibl.

Mae *Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005* yn darparu bod corff yn bodloni'r meini prawf ar gyfer elusennau os yw ei bwrpasau'n cynnwys dim ond un neu fwy o'r dibenion elusennol (y mae hyrwyddo addysg yn un ohonynt) ac os yw'n cynnig budd i'r cyhoedd yn yr Alban neu yn rhywle arall. Ym mis Chwefror 2007, cadarnhaodd Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban bod QAA wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer elusennau.

Mae canllawiau'r Comisiwn Elusennau'n cynnwys:

- Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus
- Budd cyhoeddus: rhedeg elusen
- Budd cyhoeddus: adrodd.

# Atodiad B - Gweithredu busnes y tu allan i gyfarfodydd

Efallai y bydd achlysuron yn codi pan fydd angen i'r Bwrdd weithredu busnes y tu allan i'r cylch arferol o gyfarfodydd. Dylid dilyn y gweithdrefnau canlynol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy broses briodol a'u bod yn gadarn ac yn cael eu gweithredu'n ddilys.

## Gweithredoedd y Cadeirydd

Os bydd angen i benderfyniad gael ei wneud rhwng cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn sicrhau bod y prosesau y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdanynt yn rhedeg yn esmwyth, bydd y Bwrdd yn awdurdodi'r Cadeirydd i weithredu fel y mae ef neu hi'n ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn cyflawni hynny. Lle bo'n ymarferol, bydd y Cadeirydd yn trafod y mater â'r Prif Weithredwr cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu o'r fath.

Bydd y Cadeirydd yn arfer y pŵer hwn yn ofalus, bydd yn rhoi gwybod yn brydlon i holl Aelodau'r Bwrdd, a bydd yn esbonio pam y cymerwyd y cam gweithredu a pham yr ystyriwyd y cam yn briodol. Bydd y Cadeirydd hefyd yn rhoi adroddiad ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd am weithred o'r fath, a bydd cofnod ffurfiol o'r mater yn cael ei gadw a bydd y penderfyniad yn cael ei ddilysu gan y Bwrdd.

## Penderfyniadau'r Bwrdd

Yn unol ag Erthyglau Cymdeithasu QAA, mae gan y Bwrdd dri opsiwn ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y cyfnod rhwng y cyfarfodydd:

**Galw cyfarfod arbennig**. Gall y Cadeirydd neu unrhyw dri o'r Aelodau alw cyfarfod, neu ofyn i Ysgrifennydd y Cwmni wneud hynny. Bydd Ysgrifennydd y Cwmni'n rhoi rhybudd i holl Aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys hysbysiad am y dull o gynnal y cyfarfod (wyneb yn wyneb, drwy delegynadledda neu fideo-gynadledda). Rhaid cael cworwm yn y cyfarfod, pa gyfrwng bynnag a ddefnyddir i gynnal y cyfarfod. Mae'n rhaid cadw cofnodion ffurfiol. Mae unrhyw fusnes a weithredir mewn cyfarfod arbennig o'r fath yn gyfystyr â phenderfyniad ffurfiol a therfynol y Bwrdd.

**Penderfyniad ysgrifenedig**. Os nad yw'n ymarferol neu'n bosibl galw cyfarfod, gellir cynnig penderfyniad mewn ysgrifen drwy gylchlythyru penderfyniad ysgrifenedig, a nodyn ategol lle bo'n berthnasol. Mae'n rhaid dosbarthu penderfyniad ysgrifenedig i bob Aelod sy'n gymwys i bleidleisio ar y mater sy'n bwnc y penderfyniad, a rhaid iddo gael ei lofnodi a'i ddychwelyd gan fwyafrif syml (neu yn achos penderfyniad arbennig, gan fwyafrif heb fod yn llai na 75 y cant) o'r Aelodau a fyddai wedi bod yn gymwys i bleidleisio, o fewn yr amser a nodwyd. Penderfyniadau a wneir drwy benderfyniad ysgrifenedig yw penderfyniadau ffurfiol a therfynol y Bwrdd.

**Pwyllgor**. Gall y Bwrdd ddirprwyo unrhyw rai o'i bwerau i bwyllgor sydd wedi ei gasglu o'i Aelodau at ddiben ystyried mater brys y tu allan i'r cylch arferol o gyfarfodydd.

Dylid rhoi adroddiad ysgrifenedig llawn am unrhyw weithredoedd, penderfyniadau a gweithrediadau gan bwyllgorau o'r fath i'r Bwrdd heb fod yn hwyrach na chyfarfod swyddogol nesaf y Bwrdd, a lle bo'n angenrheidiol, byddent yn cael eu cadarnhau gan y Bwrdd.

# Atodiad C - Cod Ymddygiad i Aelodau Bwrdd QAA ac i bwyllgorau Bwrdd QAA

Bydd aelodau Bwrdd QAA ('Ymddiriedolwyr') ac aelodau pwyllgorau Bwrdd QAA ('Aelodau') bob amser:

- yn gweithredu'n ddidwyll
- yn gweithredu er lles gorau QAA
- yn gweithredu'n unol ag Erthyglau Cymdeithasu QAA, yn unigol ac ar y cyd
- yn gweithredu'n unol â'r saith egwyddor bywyd cyhoeddus.

## Saith egwyddor bywyd cyhoeddus

Dyma'r saith egwyddor bywyd cyhoeddus:

| | |
|---|---|
| Anhunanoldeb: | Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig. |
| Uniondeb: | Mae'n rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus osgoi eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu faterol iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd na'u ffrindiau. Mae'n rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a chysylltiadau. |
| Gwrthrychedd: | Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau ac heb wahaniaethu neu ragfarn. |
| Atebolrwydd: | Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu angenrheidiol i sicrhau hyn. |
| Bod yn agored: | Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored ac eglur. Ni ddylid celu gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai fod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny. |
| Gonestrwydd: | Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest. |
| Arweinyddiaeth: | Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylent fod yn weithredol wrth hyrwyddo'r egwyddorion hyn a'u cefnogi'n gadarn a bod yn barod i herio unrhyw enghreifftiau o ymddygiad gwael. |

## Lles gorau QAA

Penodir neu enwebir rhai o'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau i'w swyddi gan gyrff neu sefydliadau allanol, gan gynnwys aelodau cwmni QAA. Ond, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr weithredu er lles yr elusen yn unig, ac nid er lles y rheiny sy'n eu penodi. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gynrychiolwyr y cyrff sy'n eu penodi. Nid yw'n rhan o swyddogaeth yr Ymddiriedolwr i gynrychioli neu hyrwyddo buddiannau unrhyw drydydd parti, p'un ai'r trydydd parti hwnnw yw'r corff a'i benododd/phenododd, neu a ydyw'n gorff cyllido, neu'n gorff y mae'r Ymddiriedolwr yma'n aelod ohono neu'n gyflogai iddo, neu y mae ganddi/ganddi ddiddordeb arall ynddo. Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau bob amser gael eu tywys gan y rheidrwydd i hyrwyddo lles gorau QAA ynghyd â'r angen parhaus am annibyniaeth.

## Rhoddion a lletygarwch

Ni fydd yr Ymddiriedolwyr a'r Aelodau'n derbyn unrhyw roddion, lletygarwch neu fuddion eraill a gynigir iddynt mewn perthynas â busnes QAA neu safleoedd yr Ymddiriedolwyr a'r Aelodau ar Fwrdd QAA neu bwyllgorau Bwrdd QAA, ac y gellid ystyried eu bod wedi eu bwriadu i ddylanwadu ar farn yr Ymddiriedolwyr a'r Aelodau. Bydd Ysgrifennydd y Cwmni'n rhoi cyngor os oes unrhyw ansicrwydd; rhaid datgan unrhyw roddion a lletygarwch a dderbynnir i Ysgrifennydd y Cwmni o fewn 14 diwrnod.

## Cyfrinachedd

Bydd yr Ymddiriedolwyr a'r Aelodau'n derbyn gwybodaeth gyfrinachol a/neu'n cymryd rhan mewn trafodaethau cyfrinachol yn rhan o'u swyddogaethau. Mae'n rhaid iddynt beidio â datgelu neu gyfathrebu unrhyw wybodaeth gyfrinachol - gan gynnwys trafodaethau, barn, sylwadau neu wybodaeth a glywyd mewn cyfarfodydd - mewn unrhyw ffordd, peidio â defnyddio unrhyw wybodaeth gyfrinachol at eu dibenion eu hunain, a pheidio ag achosi i unrhyw wybodaeth gyfrinachol gael ei datgelu heb awdurdod. Dim ond pan fydd unigolyn a awdurdodwyd i wneud hynny wedi rhoi caniatâd y ceir datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau gadw gwybodaeth gyfrinachol yn ddiogel a chael gwared ohoni'n ddiogel. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw achos o golli neu ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol yn ddamweiniol, ynghyd â'r amgylchiadau sydd wedi arwain at hynny, i Gadeirydd y Bwrdd neu'r Pwyllgor ac i Ysgrifennydd y Cwmni / y Prif Weithredwr.

Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd neu ei bwyllgorau lofnodi'r *Telerau defnyddio systemau QAA*, sydd hefyd yn ymwneud â mynediad at wybodaeth gyfrinachol drwy systemau electronig QAA.

## Y cyfryngau, siarad cyhoeddus, cyfathrebu gyda chyrff neu sefydliadau allanol, cynrychioli QAA yn gyhoeddus

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd y cyfryngau, trefnwyr digwyddiadau neu sefydliadau eraill yn cysylltu â'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau i ofyn iddynt ysgrifennu neu siarad yn eu rôl fel Aelodau o Fwrdd QAA neu ei bwyllgorau. Dylid trafod unrhyw geisiadau o'r fath gyda Chadeirydd y Bwrdd neu'r Pwyllgor, a'r Prif Weithredwr neu'r Pennaeth Materion Cyhoeddus a Pholisi cyn cytuno i'r ymgysylltiad.

Wrth siarad neu ysgrifennu am QAA a gwaith QAA, dylai'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod yma sy'n ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol, yn adlewyrchu polisi cyfredol QAA, ac yn rhoi datganiadau cywir, gwybodus ac ystyriol nad ydynt yn effeithio'n niweidiol ar enw da QAA a hyder y cyhoedd a'r rhanddeiliaid yn y corff.

## Cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau

Disgwylir i'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau wneud pob ymdrech i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau a neilltuo'r amser sy'n angenrheidiol i baratoi ar gyfer cyfarfodydd ac i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau'n ymrwymo i fod ar gael ac i baratoi ar gyfer gweithredu busnes brys y tu allan i'r cylch arferol o gyfarfodydd pan fo'r angen yn codi.

Mewn cyfarfodydd, bydd yr Ymddiriedolwyr a'r Aelodau'n gweithredu busnes yn golegol, yn agored ac yn wrthrychol, gan barchu barn a sylwadau pobl eraill.

Pan fydd cworwm yn bresennol, bydd y Bwrdd a'i bwyllgorau'n gwneud penderfyniadau ar sail mwyafrif. Disgwylir i'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau barchu a derbyn penderfyniadau o'r fath, ac er bod modd iddynt roi gwybod i'r Bwrdd neu'r pwyllgor pam nad ydynt yn cytuno gyda phenderfyniad, rhaid iddynt beidio â rhwystro gweithrediad y penderfyniadau.

## Staff QAA

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau'n deall ac yn parchu'r gwahaniaeth rhwng swyddogaethau a'r gwahaniad rhwng cyfrifoldebau'r Bwrdd neu ei bwyllgorau, y Prif Weithredwr, a'r Tîm Gweithredol. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Aelodau'n cydnabod bod y staff yn gyfrifol i'w rheolwyr llinell a'r Prif Weithredwr, nid i'r Ymddiriedolwyr neu'r Aelodau.

Bydd gan yr Ymddiriedolwyr ddealltwriaeth glir o'r pwerau a ddirprwyir gan y Bwrdd i'r Prif Weithredwr, a byddent yn ofalus i beidio tanseilio'r ddirprwyaeth yma drwy eu geiriau neu weithredoedd.

## Sancsiynau

Disgwylir i'r holl Ymddiriedolwyr a'r holl Aelodau weithio yn ysbryd y Cod hwn. Pan fydd Cadeirydd y Bwrdd neu un o'i bwyllgorau o'r farn bod un o'r Ymddiriedolwyr neu'r Aelodau'n methu gwneud hynny, byddent yn gyntaf yn trafod y mater â'r unigolyn dan sylw gyda'r bwriad o ddatrys unrhyw bryderon, cyn gofyn i'r Bwrdd neu'r pwyllgor ystyried a oes angen ymyrryd, a natur ymyriad o'r fath.

## Atebolrwydd ac yswiriant

Mae gan QAA fel corff y cyfrifoldeb am weithredoedd a wneir gan Aelodau ei Bwrdd. O ganlyniad, os gwneir beirniadaeth yn erbyn y Bwrdd, byddai unrhyw setliad ariannol yn cael ei dalu fel arfer o arian QAA yn hytrach nag o asedau personol Aelodau unigol o'r Bwrdd. Ni ddylai Aelodau unigol o'r Bwrdd sy'n gweithredu'n onest, yn rhesymol, yn ddidwyll ac yn ofalus er lles gorau'r corff, orfod wynebu unrhyw atebolrwydd fel unigolyn fel arfer, ar yr amod eu bod yn gweithredu i gyflawni eu dyletswyddau. Mae Aelodau Bwrdd QAA, fel Ymddiriedolwyr, wedi eu diogelu pan gânt eu penodi gan yswiriant indemniad QAA ar gyfer ei hymddiriedolwyr. Mae hwn yn diogelu gweithredoedd y Bwrdd cyfan ac, yn amodol ar yr eithriadau isod, atebolrwydd personol.

Nid yw yswiriant indemniad QAA ar gyfer ei hymddiriedolwyr yn berthnasol os bydd Aelodau ei Bwrdd, fel cyfarwyddwyr y cwmni, yn gweithredu 'ar gam', e.e. yn gwneud datganiad neu benderfyniad yn dwyllodrus neu'n esgeulus sy'n achosi colled i drydydd parti. Gallai Aelodau'r Bwrdd sy'n camddefnyddio gwybodaeth a dderbyniant drwy eu swyddogaeth fod yn atebol hefyd am dorri cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin neu gallent fod yn troseddu yn erbyn y ddeddfwriaeth ar fasnachu mewnol. Mae Adran 232 *Deddf Cwmnïau 2006* yn darparu bod "unrhyw ddarpariaeth sy'n honni eithrio cyfarwyddwr cwmni (i unrhyw raddau) rhag unrhyw atebolrwydd a fyddai fel arall yn gysylltiedig ag o mewn perthynas ag unrhyw achos o esgeulustod neu ddiffyg neu unrhyw achos o dorri dyletswydd neu ymddiriedaeth mewn perthynas â'r cwmni, yn ddi-rym." Felly, os bydd cyfarwyddwr yn gweithredu 'ar gam',

bydd ef neu hi'n bersonol atebol am y canlyniadau sy'n deillio o hynny. Mae Cymal 92 Erthyglau Cymdeithasu QAA yn adlewyrchu hyn, ac mae hefyd yn gwneud Aelodau'r Bwrdd yn bersonol atebol am gostau unrhyw amddiffyniad aflwyddiannus yn erbyn erlyniad troseddol unigolyn yn swydd y cyfarwyddwr cwmni. Gallai methu â gweithredu i atal unigolyn arall neu unigolion eraill rhag torri dyletswydd neu ymddiriedaeth hefyd arwain at sefyllfa lle mae'r 'Ymddiriedolwr segur' sydd wedi methu gweithredu yn cael ei ddal neu ei dal yn atebol yn bersonol, hyd yn oed ar ôl iddynt ymddeol o'r Bwrdd.

Pan fydd Aelodau'r Bwrdd, yn eu swyddogaethau fel Ymddiriedolwyr QAA, yn methu cydymffurfio â'u dyletswydd i adrodd am ddigwyddiadau difrifol i'r rheoleiddiwr elusennau, mae'r canlyniadau cyfreithiol a rheoleiddiol a'r niwed i'r enw da sy'n deillio o'r methiant yma'n gyfystyr â rhwymedigaethau nad ydynt wedi eu diogelu gan yr yswiriant os yw'r Aelodau o'r Bwrdd wedi esgeuluso eu dyletswydd gofal neu wedi gweithredu'n esgeulus.

Er ei bod hi'n debygol y bydd unrhyw achos cyfreithiol a gychwynnir gan drydydd parti yn debygol o gael eu dwyn yn erbyn QAA fel corff ond nid yn erbyn Aelodau unigol y Bwrdd, gellir dwyn achos dan amgylchiadau eithriadol (sifil neu droseddol) yn erbyn y Cadeirydd neu Aelodau unigol eraill o'r Bwrdd. Gallai achosion o'r fath godi mewn perthynas â gweithred neu hepgoriad yr oedd yr Aelod dan sylw'n ymwybodol eu bod yn achos o dorri ymddiriedaeth neu ddyletswydd, neu a weithredwyd mewn modd a oedd yn esgeuluso'n ddiofal yr ystyriaeth a ydoedd yn achos o dorri ymddiriedaeth neu ddyletswydd ai peidio. Er enghraifft, gallai Aelodau'r Bwrdd fod yn bersonol atebol os byddent yn gwneud datganiad twyllodrus neu esgeulus sy'n achosi colled i drydydd parti. Gallai methu â gweithredu i atal unigolyn arall neu unigolion eraill rhag torri dyletswydd neu ymddiriedaeth hefyd arwain at sefyllfa lle mae'r 'Ymddiriedolwr segur' sydd wedi methu gweithredu yn cael ei ddal neu ei dal yn atebol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

QAA2333 - Mawrth 2020

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk